# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 6 HYDREF 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | TUESDAY, 6 OCTOBER, 2015 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

W. T. Hughes, Gwilym O. Jones, R. Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees (Cadeirydd/Chair), Alwyn Rowlands

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/ The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Gwag/Vacant (Sector Uwchradd/ Secondary Sector)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 9 MEHEFIN 2015** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2015.

3 **MATERION YN CODI**

Swyddog Addysg Cynradd i adrodd ar ymateb yr ysgolion i'r pro-forma addoli ar y cyd.

4 **AROLYGIADAU ESTYN** (Tudalennau 7 - 14)

- Cyflwyno gwybodaeth ynghylch yr arolygiadau a gynhaliwyd gan Estyn.
- Cyflwyno adroddiad arolygiad Adran 50 ynghylch Ysgol Llangaffo.

5 **HUNAN-ARFARNIAD GAN YSGOLION - YSGOL BRYNGWRAN** (Tudalennau 15 - 28)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarnu AG gan yr ysgolion canlynol :

- Ysgol Bryngwran
- Ysgol y Fali,
- Ysgol Rhosybol ac
- Ysgol Llanfechell.

6 **CYNNAL A CHODI SAFONAU TGAU**

Mrs Mefys Edwards , Ysgol Syr Thomas Jones i roi cyflwyniad.

7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN AM 2014/15** (Tudalennau 29 - 50)

Cyflwyno drafft o Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn am 2014/15.

8 **CYNLLUN GWEITHREDU'R CYSAG** (Tudalennau 51 - 52)

Ystyried y perfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

9 **CYNLLUNIAU LLYWODRAETH CYMRU O FEWN ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 53 - 60)

Yr Is-Gadeirydd i arwain trafodaeth ynghylch yr uchod.

*(Gwybodaeth gefndirol ynghlwm)*

**10 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

Y cynrychiolwyr oedd yn bresennol yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug ar 25 Mehefin, 2015 i adrodd yn ôl ar unrhyw fater yn codi o'r cyfarfod hwnnw.

**11 CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2015**

Ymgynghorydd Her GwE i roi diweddariad ynglyn ag argaeledd data perfformiad.

**12 CYFARFOD NESAF**

2:00 y prynhawn, ddydd Mawrth, 16 Chwefror, 2016.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Y Cynghorwyr G.O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery |
| | **Yr Enwadau Crefyddol** |
| | Mr Rheinallt Thomas (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)<br>Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) |
| | **Cynrychiolwyr Athrawon** |
| | Mrs Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis)<br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo)<br>Mrs Heledd Hearn (Ysgol Bodedern) |
| **WRTH LAW:** | Mr D.Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd) (Clerc i'r CYSAG)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd W.T.Hughes, Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Y Parch Elwyn Jones (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE), Mr Dafydd Griffiths (Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd) (Sylwedydd) |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 CHWEFROR 2015

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar nodi'r isod –

- Mai'r enw cywir ar y prosiect Llyfr Agored y cyfeirir ato dan eitem 3.1 yw'r prosiect Agor y Llyfr ac mae'n cyflwyno storïau o'r Beibl trwy ddrama.
- Bod y Swyddog Ysgolion y cyfeirir ato hefyd dan eitem 3.1 yn cael ei gyflogi gan Gobaith Môn.
- Mewn perthynas ag eitem 4, dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd wrth y CYSAG ei fod yn bwriadu gwahodd mynegiadau o ddiddordeb gan ysgolion ar gyfer ymweliad addoli ar y cyd gan aelodau o'r CYSAG yn y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi.
- Mewn perthynas ag eitem 7, cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd ei fod wedi dwyn yr argymhellion i sylw ysgolion yr Ynys.
- Yn unol â'r cais a wnaed yn y cyfarfod diwethaf, cyflwynwyd i sylw'r CYSAG gopi o'r ohebiaeth a ddosbarthwyd i ysgolion gan yr Eglwys yng Nghymru yn gofyn am eu barn ynghylch sut y gallai'r Eglwys eu cefnogi. Cadarnhaodd Miss Kirsty Williams fod fersiwn ddwyieithog wedi ei



DRAFT

chylchredeg i'r ysgolion ac er bod ychydig o ymatebion eisoes wedi eu derbyn – gyda rhai ohonynt yn bositif o ran cadarnhau cysylltiad cyfredol gydag eglwys neu gapel ac yn mynegi diddordeb mewn cael mynediad i adnoddau a chymorth addysgiadol gan yr Eglwys yng Nghymru – dywedodd nad oedd digon o ymatebion wedi cyrraedd i fedru dod i gasgliad cyffredinol. Eglurodd y byddai'n adrodd yn fanylach i gyfarfod nesaf y CYSAG.

**3. AROLYGIADAU YSGOL**

Cyflwynwyd y wybodaeth a ganlyn i'w hystyried gan y CYSAG –

- Dyfyniadau o adroddiadau arolygu Estyn mewn perthynas â Chanolfan Addysg y Bont, Ysgol Llangoed, Ysgol Kingsland ac Ysgol Bodorgan. Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r adroddiadau yr oedd angen dod â nhw i sylw'r CYSAG.

  Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at ganllawiau a gyhoeddwyd gan Estyn ar gyfer ei arolygwyr cofrestredig ynghylch y disgwyliad eu bod yn cynnwys sylw ym mhob adroddiad arolwg ysgol (gan gynnwys y rheini ar ysgolion Eglwys) ynghylch ansawdd y ddarpariaeth mewn perthynas â datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion fel gofyniad statudol. Dywedodd yr Is-Gadeirydd fod y mater wedi codi o ganlyniad i bryderon nad oedd pob adroddiad arolygu'n rhoi sylw i'r agwedd hon. O safbwynt cyrff CYSAG, byddai cyfeiriad o'r fath yn ddefnyddiol i'r corff yn ei swyddogaeth fonitro.

  Esboniodd yr Ymgynghorydd Her Gwe fod un o'r cyrff CYSAG wedi sylwi bod yr agwedd hon wedi ei gadael allan mewn rhai adroddiadau mewn perthynas ag ysgolion yn ei ardal leol a'i fod wedi dwyn sylw Estyn wedyn at yr angen i'r broses o adrodd ar arolygiadau fod yn gyson. Yn broffesiynol, nid oedd yn credu bod y mater wedi codi mewn perthynas ag adroddiadau arolygu ar ysgolion yn lleol yn Ynys Môn.

- Adroddiad Adran 50 mewn perthynas ag Ysgol Parch.Thomas Ellis.

  Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd ei fod wedi cysylltu gyda thair ysgol Eglwys yr Ynys ar gyfer eu hadroddiadau arolwg Adran 50 a bod yr adroddiad ar Ysgol Parch.Thomas Ellis uchod wedi ei dderbyn.

  Nododd y CYSAG y wybodaeth gan gydnabod gwaith yr holl ysgolion dan sylw yr oedd yr adroddiadau arolwg yn tystio iddynt.

  **Cytunwyd i dderbyn a nodi'r wybodaeth.**

  **CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Swyddog Addysg Gynradd i anfon llythyr cydnabyddiaeth i'r ysgolion ar ran y CYSAG.**

**4. YMWELIADAU ADDOLI AR Y CYD**

Rhoddodd y CYSAG sylw i ymweliadau a wnaed gan Aelodau ac i ffurflen safonol arfaethedig ar gyfer cofnodi'r ymweliadau hynny a amlinellwyd gan yr Ymgynghorydd Her Gwe mewn cyflwyniad gweledol.

Cafwyd adroddiad llawn gwybodaeth gan y Cynghorydd Gwilym O. Jones ar ei ymweliadau i Ysgol y Fali ac Ysgol y Tywyn i arsylwi'r arferion addoli ar y cyd yn y ddwy ysgol. Ar adeg ei ymweliadau roedd yr arferion yn y ddwy ysgol yn seiliedig ar y thema rhoi diolch a'r teulu byd eang yn y naill ysgol ac ar y thema cyfeillgarwch yn y llall.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Her Gwe at y cyd-destun addoli ar y cyd a dyletswyddau CYSAG fel y corff sy'n gyfrifol am fonitro addoli ar y cyd yn yr ysgolion hynny yn ei ardal i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r gofyn statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr. Dywedodd fod aelodau'r CYSAG wedi datgan eu bod yn fodlon cyflawni'r ddyletswydd honno trwy archwilio adroddiadau hunanwerthuso AG yr ysgolion, sy'n cynnwys adran ar addoli ar y cyd, a thrwy ymweld ag ysgolion. Dywedodd hefyd eu bod wedi cael canllawiau gan Gymdeithas CYSAGau Cymru ac Estyn i'w cynorthwyo yn y dasg honno. Pwrpas y ffurflen safonol yw darparu

dull cyson a threfnus i aelodau'r CYSAG fedru cofnodi eu hymweliadau a chyflwyno sylwadau arnynt. Cynigiodd y dylai'r ffurflen gynnwys darpariaeth ar ffurf ticio blwch i gofnodi'r agweddau a ganlyn -

- Y math o sesiynau addoli ar y cyd a arsylwyd;
- Y rheini sy'n arwain ac yn cyfrannu at y sesiwn;
- Hyd y sesiwn;
- Y thema(âu) a oedd yn sail ar gyfer y sesiwn;
- P'un a wahoddwyd pobl grefyddol o'r gymuned leol i gyfrannu;
- P'un a oedd gweddïo yn rhan o'r sesiwn neu p'un a adroddwyd hanesion o'r Beibl neu straeon moesol neu a ganwyd emynau;
- Pa 3 datganiad ym marn y sylwedydd oedd yn disgrifio orau'r sesiwn addoli ar y cyd a arsylwyd (darperir cyfres o ddatganiadau).

  Croesawodd y CYSAG y ffurflen safonol fel ffordd o ddarparu fframwaith syml i'r Aelodau roi adborth ar eu hymweliadau addoli ar y cyd mewn ffordd unffurf ac nad yw'n feirniadol, gyda'r amod y dylid ychwanegu adran ar gyfer "unrhyw sylwadau eraill". Cytunwyd i fwrw ymlaen ar y sail honno am gyfnod prawf. Awgrymwyd hefyd y dylid codi'r mater gyda'r ysgolion trwy'r grwpiau strategol cynradd ac uwchradd i gael eu cefnogaeth ar gyfer y broses adrodd arfaethedig. Cadarnhaodd y Cynrychiolwyr Athrawon ar y CYSAG eu bod yn gyfforddus gyda'r cynnig ar y ddealltwriaeth fod yr ysgolion yn cael gwybod am bwrpas y ffurflen safonol a sut y dylid ei defnyddio.

  Ystyriodd y CYSAG sut y dylid rhannu'r wybodaeth ar y ffurflenni a gwblheir ac, ar ôl trafodaeth, cytunwyd fel a ganlyn -

  - Trefnu i'r wybodaeth fod ar gael i'r ysgolion ac mai cyfrifoldeb yr aelod o'r CYSAG sydd wedi gwneud yr ymweliad addoli ar y cyd yw rhoi copi i'r ysgol o'r ffurflen safonol wedi iddi gael ei chwblhau.
  - Wrth anfon y ffurflen ymlaen i'r Swyddog Addysg Gynradd (i'w chyflwyno i'r CYSAG) dylai'r aelod o'r CYSAG nodi a yw'r ysgol wedi cael y wybodaeth ai peidio neu, fel arall, dylai drefnu i'r Swyddog Addysg Gynradd anfon y wybodaeth ymlaen i'r ysgol.

**Cytunwyd –**

- **Derbyn y ffurflen arfaethedig ar gyfer cofnodi ymweliadau addoli ar y cyd ag ysgolion fel y cyflwynwyd hi gan yr Ymgynghorydd Her GwE, gan ychwanegu adran ar gyfer unrhyw sylwadau eraill.**
- **Bod y wybodaeth yn cael ei rhannu ar y llinellau a gynigwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Ymgynghorydd Her GwE i gylchredeg y ffurflen safonol i Aelodau'r CYSAG**
- **Swyddog Addysg Gynradd i hysbysu'r ysgolion, trwy'r grwpiau strategol cynradd ac uwchradd, o bwrpas y ffurflen a sut y caiff ei defnyddio**

## 5. ADRODDIADAU HUNANARFARNU GAN YSGOLION

Cyflwynwyd i sylw'r CYSAG yr adroddiadau hunanarfarnu AG ar Ysgol Ffrwd Win, Ysgol Parc y Bont, Ysgol Henblas ac Ysgol Carreglefn.

Nododd y CYSAG y wybodaeth gan fynegi ei werthfawrogiad o gyflawnder y wybodaeth a ddarparwyd.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**CAM GWEITHREDU'N CODI: Swyddog Addysg Gynradd i ddiolch i'r ysgolion ar ran y CYSAG.**



DRAFT

**6. ADOLYGIAD DONALDSON O'R CWRICWLWM A THREFNIADAU ASESU YNG NGHYMRU**

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE ar yr ymateb i adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod Cymdeithas GYSAGau Cymru a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adolygiad a'i bod hithau hefyd wedi ymateb ar ran y CYSAG. Wrth wneud hynny roedd wedi dwyn sylw at nifer o bwyntiau gan gynnwys yr isod -

- Croesewir y cyfeiriad penodol at AG yn yr adroddiad adolygu a bod CYSAG Ynys Môn yn cytuno bod angen i'r cwricwlwm cenedlaethol ac Addysg Grefyddol adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn oes ddigidol.
- Bod y CYSAG yn cymeradwyo'r safbwynt ynghylch pwysigrwydd AG yn y 6 maes newydd o ddysgu a phrofiad a gynigir gan yr Athro Donaldson ond ei fod yn bryderus y gallai AG gael ei "cholli" neu ei hymylu o fewn y Dyniaethau a'r meysydd dysgu a phrofiad eraill.
- Bod yr adolygiad yn argymell proses asesu sy'n cefnogi gwell dysgu a pharhad addysgol o'r Cyfnod Sylfaen yr holl ffordd trwodd hyd at pan fydd plentyn yn gadael ysgol fel ei fod yn gwneud cynnydd graddol yn ôl ei bwysau/phwysau ar draws y continwwm. Mae'r CYSAG yn cytuno mai pwrpas yr asesiad yw sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Fodd bynnag, gall proses asesu newydd fod yn heriol i'r CYSAG o ran cyflawni ei gyfrifoldeb statudol i fonitro safonau AG.
- Bod yr adolygiad yn cynnig y dylai ysgolion ac athrawon gael mwy o ryddid i siapio'r cwricwlwm. Mae'r CYSAG yn cytuno y dylai athrawon ddarparu profiadau AG sy'n berthnasol ac yn ddiddorol ond dylai plant a phobl ifanc hefyd ddysgu am y cymunedau crefyddol lleol a chenedlaethol sy'n cyfrannu at fywyd yng Nghymru h.y. y Cwricwlwm Cymreig.
- Mae'r CYSAG yn awyddus i barhau i gyfrannu at y broses o ddatblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd. Mae cynnal safonau AG uchel yn flaenoriaeth i'r corff. Gobeithir bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod profiad, gwybodaeth ac arweinyddiaeth Cymdeithas CYSAGau Cymru a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol y cynrychiolir y CYSAG arno a Mudiad Addysg Grefyddol Cymru y mae gwaith y CYSAG yn cyfrannu ato.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd ei fod wedi llunio ymateb i Adolygiad Donaldson ar ran yr Eglwysi Rhyddion ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru lle'r oedd wedi mynegi eu pryderon am rôl y consortia addysg sy'n tanseilio'r gefnogaeth ar gyfer AG o fewn ysgolion a'i fod wedi gwneud cais i'r gwasanaeth cymorth ar gyfer y CYSAG gael ei ailsefydlu ar y sail bod y cyfrifoldeb am AG yn gorwedd yn lleol gyda'r CYSAGau a bod awdurdodau addysg lleol yn cael yr adnoddau fel bod modd i hynny ddigwydd.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**7. DEUNYDDIAU ENGHREIFFTIOL I DDATBLYGU LLYTHRENNEDD A RHIFEDD MEWN AG YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 3**

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan yr Ymgynghorydd Her GwE ar fodiwl o waith a ddatblygwyd gan yr Ymgynghorydd AG yng Nghaerfyrddin sydd wedi ei deilwrio'n benodol tuag at sicrhau fod bechgyn ym Mlynyddoedd 7 ac 8 yn ymgysylltu'n well gydag AG. Mae'r modiwl yn seiliedig ar brofiadau pêl-droedwyr Moslemaidd amlwg yn yr Uwch Gynghrair sy'n cynnal ac yn glynu wrth eu harferion ffydd grefyddol yng nghyd-destun eu bywydau proffesiynol.

Aeth yr Ymgynghorydd Her GwE ymlaen i ddangos sut mae'r modiwl yn hyrwyddo sgiliau llythrennedd yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r ffydd Foslemaidd trwy bennu tasgau sy'n edrych ar agweddau ar ffydd fel y maent yn ymwneud â bywydau proffesiynol pêl-droedwyr ac sy'n golygu bod angen i'r dysgwr gwblhau ymarferion ysgrifennu. Mae'r modiwl yn cynnwys uned ar weddi, uned ar Ramadan ac uned ar fwyd a diod ac mae'r rhain yn edrych ar yr heriau y mae pêl-droedwyr Moslemaidd yn yr Uwch Gynghrair yn eu hwynebu wrth ddilyn eu ffydd o fewn gofynion eu bywydau proffesiynol ac yna'n cysylltu'r rheini wedyn gyda thasgau ysgrifennu penodol. Dywedodd y Swyddog fod copïau o'r modiwl ar gael ar CD.

Croesawodd y CYSAG y deunydd fel adnodd creadigol a heriol a chymeradwyodd yr aelodau ei gylchredeg i ysgolion uwchradd yr Ynys.

**Cytunwyd i gefnogi dosbarthu'r adnodd i ysgolion uwchradd yr Ynys ac i ddiolch i Mrs Mary Parry, Ymgynghorydd AG yng Nghaerfyrddin am ei pharodrwydd i rannu'r deunydd.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Bod Mrs Heledd Hearn (Cynrychiolydd Athrawon Uwchradd) a Mr Dafydd Griffiths (Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer Rhifedd a Llythrennedd) yn dosbarthu'r adnodd i ysgolion uwchradd yr Ynys, y naill i Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol David Hughes a'r llall i Ysgol Syr Thomas Jones, Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol Uwchradd Caergybi.**
- **Bod y Swyddog Addysg Gynradd yn diolch i Mrs Mary Parry trwy lythyr ar ran y CYSAG.**

## 8. DATBLYGU GWAITH Y CYSAG

Cyflwynwyd i sylw'r CYSAG gopi o gyflwyniad a wnaed yng nghyfarfod CYSAGau Cymru yn Nhorfaen mewn perthynas â CYSAGau a threfniadau consortia ar ffyrdd o hwyluso gwaith CYSAGau yn y cyd-destun hwnnw.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod llawer o'r argymhellion a wneir yn y cyflwyniad eisoes wedi cael eu mabwysiadu gan y CYSAG yn ei Gynllun Gweithredu.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**CAM GWEITHREDU'N CODI: Swyddog Pwyllgor i gynnwys Cynllun Gweithredu'r CYSAG ar raglen y cyfarfod nesaf.**

## 9. CYMDEITHAS CYSAG CYMRU

Dosbarthwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nghastell-nedd a Phort Talbot ar 6 Mawrth 2015 ac fe'u nodwyd.

Rhoddodd y CYSAG sylw i'w gynrychiolaeth yn y cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhelir yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint ar 25 Mehefin. Cadarnhaodd yr Is-Gadeirydd a'r Ymgynghorydd Her GwE eu bod yn bwriadu mynychu'r cyfarfod a nodwyd bod gwahoddiad agored yn parhau i unrhyw un o aelodau'r CYSAG fel trydydd cynrychiolydd.

Mewn perthynas ag enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru, nodwyd bod y Cynghorydd Michael Gray o Gaerffili wedi tynnu'n ôl yn dilyn ei ymddeoliad, a bod Phil Lord wedi ei enwebu am swydd Is-Gadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru.

**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

**HAF 2015 SUMMER.**

**Ysgol Gymraeg Morswyn.**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn gosod naws Gristnogol a moesol gan roi cyfle i greu ethos myfyrgar.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ymweld â chartrefi'r henoed a chynnal gwasanaethau amrywiol yn y capeli.

*The school provides a wide and balanced curriculum that meets the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education.*

*The school's procedures and policies ensure that provision for spiritual, moral, social and cultural development is good. Collective worship sessions create a Christian and moral atmosphere and provide an opportunity to create a reflective ethos.*

*There are valuable opportunities to visit old people's homes and hold various services in the chapels.*

**Ysgol Bodffordd.**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu symbylus ac yn cynllunio ar y cyd gydag ysgolion lleol er mwyn darparu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion statudol yn briodol.

Llwydda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus drwy gyfrwng gwasanaethau, codi arian at elusennau, arddangosfeydd pwrpasol ac wrth gynnwys barn y disgyblion am werthoedd ac ymddygiad drwy'r 'Rheolau Aur'.

*The school provides a stimulating range of learning experiences and plans jointly with local schools in order to provide a curriculum that meets statutory requirements appropriately.*

*The school promotes pupils' spiritual, moral and social development successfully through the medium of assemblies, raising money for charities, purposeful displays and including pupils' views on values and behaviour through the 'Golden Rules'.*

***Adroddiad Arolwg Gwella (o dan Adran 50 o Ddeddf Addysg 2005)***

# Ysgol Llangaffo

**Ysgol Gynradd dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru**

Llangaffo, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6LT

*Esgobaeth* **: Bangor**
*Awdurdod Lleol***: Gwynedd**
*Pennaeth :* **Mrs. Manon Morris Williams**

*Dyddiad yr Arolygiad:* **Mehefin 16, 2014**
*Rhif unigryw'r ysgol*: **661-3035**
*Arolygydd Gwella:* **Canon Robert Townsend**

**1 Cyd-destun yr Ysgol**

Mae ysgol Llangaffo wedi'i lleoli ym mhentref Llangaffo sydd oddeutu chwe milltir o dref Llangefni yn Ynys Môn.

Mae 52 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 7 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn ddau ddosbarth, un yn ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r llall ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed.

Mae dau draean o'r disgyblion yn ddisgyblion all-ddalgylch.

Mae oddeutu 46.15% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf.

Nid oes yr un o'r disgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 15.56% (cam gweithredu ysgol i ddarpariaeth – canran seiliedig ar blant llawn amser) o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n llawer uwch na'r ganran genedlaethol. Mae ychydig (4.44%) o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae 2.22% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydiau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2006.

**2.1 Mae cymeriad Cristnogol nodedig ac effeithiolrwydd yr ysgol fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn rhagorol.**

**2.2 Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella fel Ysgol eglwysig yn rhagorol.**

Y mae Ysgol Llangaffo yn llywyddo i wasanaethu ei chymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf o fewn cyd-destun cred ac ymarfer Cristnogol. Mae'r ysgol yn sefydliad hapus, gofalgar a diogel lle caiff dysgwyr cyfle i fynnu diolch i gwricwlwm sydd wedi'i wreddio mewn gwerthoedd Cristnogol. Mae dysgwyr yn ymwybodol bod y gwerthoedd hyn yn deillio o Efengyl ac esiampl yr Iesu.

**3 Cryfderau sefydledig**

1. Gweledigaeth Pennaeth yr ysgol fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru
2. Partneriaethau sy'n hybu cyfraniadau helaeth ac amrywiol gan bobl y cymuned ffydd er budd y dsysgwyr
3. Cyfraniadau'r clerigion lleol i arweinyddiaeth yr ysgol yn ogystal ag addoli a datblygiad y dysgwyr
4. Cynllunio ar gyfer addoli
5. Cyfraniad addysg grefyddol at cymeriad Cristnogol yr ysgol
6. Cwricwlwm ysgol sydd wedi'i ganoli ar werthoedd Cristnogol

Aed i'r afael â phob mater o'r arolygiad Adran 50 blaenorol .

**4 Ffocws ar gyfer datblygu**

1 Gweithredu'r pwyntiau datblygu sydd eisioes wedi ei adnabod yn ddogfen hunan-arfarnu'r ysgol

2 Darganfod ymarfer da mewn ysgolion eglwys eraill yng Nghymru a chanfod sut fedrith eu hymarfer da cyfrannu at ddatblygiad Ysgol Llangaffo fel ysgol eglwys.

**5 Mae'r ysgol, drwy ei chymeriad Cristnogol nodedig, yn rhagorol am gyfarfod ag anghenion pob dysgwr**

Gweledigaeth yr Ysgol yw i ddarparu awyrgylch ac amodau lle y gall pob plentyn ffynnu, ac mae datganiad ethos yr ysgol yn adlewyrchu hyn - *Ffynnwn yng Ngholeuni Crist*. Ategir hyn gan y faner lliwgar ar un wal yn y neuadd. Wrth siarad am y datganiad ethos, mae dysgwyr yn adrodd yn hawdd am y gwerthoedd mae'r ysgol yn canolbwyntio arnynt, sef gobaith, heddwch, dycnwch, doethineb, cyfeillgarwch, diolchgarwch a pharch, ac yn yn mynd ymhellach i wreiddio eu hymateb mewn enghraifftiau Beiblaidd o'r gwerthoedd. Wrth sôn am ddycnwch wnaeth un disgybl siarad am daith anodd yr Iesu at y Groes, ac wrth siarad am obaith wnaeth disgybl arall sôn am gyfnod yn yr Hen Destament, pam oedd yr Iddewon yn ffoaduriaid ac yn ysu am fynd yn ôl i'w wlad eu hunain.

Mae awyrgylch ac ymdeimlad cartrefol iawn yn Ysgol Llangaffo ac mae ymwelwyr yn gyson yn cyfeirio at yr ymdeimlad hyn. Mae agwedd ofalgar drwy'r ysgol gyda'r plant hynaf yn aml yn cynorthwyo'r plant ieuengaf.

Mae'r ymdeimlad o gyd-weithio i lwyddo'n amlwg yn yr ysgol. Nododd 100% o'r disgyblion yn holiadur Haf 2013 fod pawb yn parchu ei gilydd a fod athrawon a staff yr Ysgol yn gwrando arnynt ac yn eu helpu. Roedd presenoldeb y flwyddyn ysgol ddiwethaf yn 96.3% ar gyfer disgyblion o oed mynychu gorfodol. Mae'r ysgol hefo perthynas agos â rhieni, a phe cyfyd unrhyw broblemau nododd y rhan fwyaf o rieni (holiadur Haf 2013) y byddai rhywun o fewn yr ysgol ar gael i wrando arnyn nhw. Yn ystod y cyfarfod hefo'r rhieni, roedd eu barn yn gryf iawn dros effaith cadarnhaol cymeriad Cristnogol yr ysgol ar eu plant, er nad oeddent yn mynychwyr rheolaidd mewn addoldai.

Mae canlyniadau system dracio (asesiadau athro, profion Cenedlaethol a mewnol) yn dangos fod pob plentyn yn gwneud cynnydd yn erbyn ei gyrhaeddiad blaenorol ac yn erbyn ei dargedau personol. Llwyddir i wneud hyn drwy adnabyddiaeth drylwyr a pherthynas ragorol gyda'r disgyblion. Y mae arsylwadau gwersi yn dangos fod gan y disgyblion agweddau positif at ddysgu.

Caiff cymeriad Cristnogol nodedig yr ysgol ei ategu gan wirfoddolwyr y cymuned ffydd lleol sydd yn cynorthwyo yn yr Ysgol. Mae unigolyn yn cynorthwyo i ddatblygu gardd yr Ysgol a gwirfoddolwyr eraill yn darllen gyda grwpiau o ddisgyblion ac unigolion yn yr Ysgol. Mae'r gwirfoddolwyr yn gweithio gyda grwp o ddisgyblion MAT, grwp o ddisgyblion sydd yn cael eu targedau ac unigolion sy'n derbyn ymyrraeth gynnar. Ennillodd yr ysgol gymorth nifer o wirfoddolwyr o'r Eglwys leol wrth fynd ar bererindod i Eglwys Llanddwyn - cymorth a oedd yn handofol er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion ond bu hefyd yn fodd o gryfhau y bartneriaeth.

Mae'r un partneriaeth da'n bodoli hefo'r clerigion lleol, sydd rhan anatod o fywyd yr ysgol. Maent wedi arwain sesiynau 'Cwestiynau Mawr' lle mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl rydd i ofyn cwestiynau dwys fel "a oes rhaid marw?" Cynnigir dosbarthiadau conffyrmasiwn yn yr ysgol i'r rhai sydd yn dymuno. Mae ciwrad yr Ardal Gweinidogaeth yn cynnal sesiynnau *Godly Play* gyda disgyblion y CS sydd wedi ennyn chwilfrydedd y disgyblion ac yn annog iddynt feddwl.

Mae addysg grefyddol yn cyfrannu'n fawr tuag at gymeriad Cristnogol nodedig yr ysgol. Heriodd dysgwyr mewn un wers i ystyried 'a all gasineb bod yn beth da?'. Bu rhaid i ddysgwyr feddwl yn ddwys, ac wedyn gyfeirio eu feddyliau yn ôl at sylfaen gwerthoedd yr ysgol, sef yr Iesu.

Mae gwerthoedd Cristnogol yn cael effaith cadarnhaol iawn ar ddatblygiad dysgwyr ac mae'r werthoedd hyn wedi eu plannu'n ddwfn ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn mynegi nodweddion Cristnogol arbennig gwerthoedd yr ysgol a'r effaith sylweddol y maent yn ei gael ar fywydau dyddiol a chyflawniadau dysgwyr. Mae cymeriad Cristnogol nodedig Ysgol Llangaffo'n rhagorol wrth gyfarfod anghenion dysgwyr.

**6 Mae effaith cydaddoli ar y gymuned ysgol yn rhagorol**

Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Y mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol, ac maent yn profi gwirionedd hyn wrth holi iddynt. Mae cynllun cyd-addoli, cylch dwy flynedd, wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwyliau Cristnogol. Mae gan gydaddoli ffocws cadarn ar berson Iesu Grist ac mae dysgwyr yn deall y sefyllfa ganolog sydd ganddo Ef yn y ffydd Gristnogol. Cenir amrywiaeth o emynau, ac gweir defnydd llawn o adnoddau newydd.

Yn wythnosol bydd grwpiau amrywiol o ddisgyblion CA2 yn paratoi gwasanaeth. Ceir amrywiaeth o eitemau yn y gwasanaethau yma o ddrama i gwis. Gwelwyd disgyblion CA2 yn arwain addoli ac yn cyflwyno drama yn seiliedig ar hanes Elias. Y mae hyn yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion CA2 o themau a straeon, yn eu hannog i feddwl am ddulliau effeithiol o gyflwyno'r stori neu thema ac yn cynnig profiadau cyd-addoliad amrywiol i ddisgyblion y CS. Mae cydaddoli'n rheolaidd yn cynnwys defnydd Beiblaidd ac mae dysgwyr yn gallu perthnasu hyn i werthoedd allweddol yr ysgol a'u bywydau eu hunain.

Nod arall addoli yw i sicrhau fod disgyblion yn deall natur a phwrpas gweddi. Yn ystod y gwasanaethau caiff y disgyblion gyfle i fyfyrio a chyfle i ddweud gweddi bersonol. Hybir y disgyblion i ysgrifennu gweddïau ar gyfer achlysuron penodol e.e. diolchgarwch, neu i ymateb i sefyfaoedd argyfyngus, fel rhyfel yn Syria. Drwy gyfrwng hyn oll sicrheir fod y cyfnod y gyd-addoliad yn gyfnod ysbrydol nodedig.

Elfen arall o'r gydweithio agos ac effeithiol rhwng yr ysgol a pobl lleyg ei Hardal Weinidogaeth sydd yn gyfranu at addoli'n yr ysgol yw *Agor y Llyfr*. Mae grwp o oedolion o bob rhan o'r Ardal Gweinidogaeth wedi'i sefydlu i baratoi'r stori a'r celfi pwrpasol. Gwneir hyn yn fanwl ac yn greadigol iawn unwaith bob pythefnos. Mae disgyblion yn cymryd rhan ym mhob stori, boed fel rhan o'r adrodd neu ar yr ochr 'technegol' hefo'r celfi. Mae'r effaith ar y disgyblion yn sylweddol, gan yr oeddent yn ail-adrodd straeon, ac yn disgrifio'r celfi - hefo pawb yn dweud wrthyf am waliau Jericho. Roedd gweld pysgodyn mawr yn 'nofio' ar draws y neuadd ac yn 'llyncu' Jona'n amhrisadwy! Er fod iaith y grŵp yn Saesneg ategwyd at werth y cyflwyniad a'i campwaith pan aeth arweinydd yr addoliad dros y werthoedd yn y stori yn y Gymraeg, ac yn ymestyn geirfa dwyieithog y disgyblion a hybu eu sgiliau trawsieithu'r.

Mae cydaddoli'n ysbrydoledig ac yn gynhwysol. Mae'n ymrwymo pob dysgwr a gellir canfod ei effaith yn glir ym mhob rhan o fywyd cymunedol yr ysgol. Mewn holiadar nododd 100% o rieni fod gwerthoedd ac agwedd yr Ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn, sydd yn adlewyrchu'r ffaith bod effaith cydaddoli ar y gymuned ysgol yn rhagorol.

**7 Mae effeithiolrwydd yr addysg grefyddol yn dda**
*Dim yn berthnsaol i ysgol reoledig*

**8 Mae effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig yn rhagorol.**

Y mae gweledigaeth Gristnogol glir gan y Pennaeth, sydd wedi'i drosglwyddo'n effeithiol ac ac wedi'i ymgorffori gan weddill y staff a chymuned ehangach yr Ysgol. Lluniwyd a thrafodwyd y weledigaeth ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid. Mae'r ysgol yn sicrhau bod y cwricwlwm cyfan yn cael ei lywio gan weledigaeth Gristnogol arbennig sy'n cyfrannu'n dda at ymddygiad ac agweddau disgyblion yn ogystal â'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Wrth hunan-arfarnu cymeriad Cristnogol yr Ysgol, ychwanegwyd blaenoriaeth i CDY sydd yn cynnwys cynllun penodol i ddatblygu cymeriad Cristnogol yr Ysgol. Y mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu pendant ac yn gosod amserlen bendant i'w ddilyn. Y mae'r llywodraethwyr yn monitro'r cynnydd trwy ymweliadau ac yn yn eu cyfarfodydd.

Mae Arweinydd Tîm yr Ardal Gweinidogaeth yn gyfaill beirniadol effeithiol i'r ysgol fel ysgol eglwys, ac yn barod iawn i gyfrannu er budd datblygiad y disgyblion mewn unrhyw ffordd. Gwerthfarogir ei fewnbwm yn helaeth.

Mae'r Pennaeth a'r staff yn modelu ac yn hyrwyddo ymddygiad a gwerthoedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at greu ethos ysgol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Mae'r ysgol yn fanteisio o hyfforddiant a chynigir gan yr esgobaeth, yn ogystal â diwrnodau yn y Gadeirlan ar gyfer Blwyddyn 6, a ystyrir fel diwrnodau hyfforddiant i'r staff, oherwydd y syniadau a phrofiadau newydd sydd i'w weld mewn diwrnodau o'r fath.

Yn haf 2011 enillodd disgyblion blwyddyn 5 cystadleuaeth cynllunio faner ar gyfer dathlu ddau gant mlwyddiant y National Society. Yn Hydref 2011 cafodd tair o ddisgyblion yr Ysgol gynrychioli'r Esgobaeth mewn gwasanaeth arbennig yn Abaty Westminster yn Llundain. Bu'r profiad yn un bythgofiadwy nid yn unig i'r disgyblion ond i'w rhieni hefyd. Mae adborth am y diwrnod yn tystio i'r cyfeillgarwch a'r agosatrwydd oedd rhwng y disgyblion, y Cyfarwyddwr Esgobaethol a'r Esgob ar y diwrnod.

**A ydyw'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli? YDY**

**A ydyw'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol? YDY**

**A ydyw'r ysgol wedi gweithredu argymhellion yr arolwg blaenorol YDY**

**A ydyw'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer mynediad? (dim angen sylw)**

*Dylid ystyried cynnwys yr adroddiad hwn wrth ochr Adroddiad Adran 28 Tîm Arolygu Estyn.*
*Dymunaf ddiolch i Bennaeth, Staff, Llywodraethwyr a disgyblion Ysgol Llangaffo*
*am eu croeso a'u cydweithrediad. Bendith Duw arnoch yn y dyfodol.*
***Canon Robert Townsend Mehefin 2014***

This page is intentionally left blank

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Jane Marr**

**Cyfeiriad: Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Ysgol Gymuned Bryngwran**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Mewn arsylwadau ac wrth drafod gyda disgyblion, bernir fod y gwersi gyflwynir, y dysgu a'r addysgu yn dda.
Mae'r mwyafrif garfan y Cyfnod Sylfaen yn llwyddo i gyflawni ar Lefel 2+, a'r lleiafrif da yn llwyddo ar lefel 3
Mae gallu'r plant i drafod a dwyn i gôf yn cael ei ddatblygu trwy'r ysgol ar lefelau gwahanol sy'n oed briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos cynnydd da yn eu gallu i ymdrin a chwestiynau sylfaenol. Defnyddiant eirfa grefyddol briodol sy'n dwysau wrth i'r plant ddatblygu trwy'r ysgol.
Mae'r mwyafrif ar draws yr ysgol yn barod i sgwrsio a thrafod gan rannu eu syniadau, eu canfyddiadau a'u teimladau. Gydag aeddfedrwydd maent yn llwyddo'n gynnyddol i lunio barn eu hunain ac erbyn brig yr ysgol yn esbonio sut mae eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau.
Mae'r plant yn datblygu yn eu gallu i adnabod nodweddion tebyg a gwahanol o fewn ac ar draws crefyddau ac yn datblygu ymhellach eu hymwybyddiaeth o grefyddau eraill astudir trwy gyfrwng themau sy'n cylchdroi.
Mae llawer o'r plant yn frwdfrydig wrth ymdrin â'u gweithgareddau ac yn mwynhau profiadau amrywiol.
Gwelir tystiolaeth fod llawer y cyflawni'n gadarn ar lefel 4 ac ychydig iawn o'r plant yn cyflawni ar Lefel 5 erbyn brig CA2.

**Materion i gael sylw**

- Hyrwyddo ysgrifennu estynedig wrth gofnodi.
- Sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ymdrin â'r maes
- Dwysau sgiliau holi a thrafod ychydig o'r plant

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Mae ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda.
Yn y Cyfnod Sylfaen hyrwyddir sgiliau penodol sy'n ymwneud â 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' drwy ddarpariaeth benodol ym meysydd Personol, Cymdeithasol a Lles a Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd. Cynllunir yn fwriadus ac ystyrir agweddau yn draws-gwricwlaidd yn ogystal. Hyrwyddir ysgrifennu estynedig trwy gyfrwng tasgau penodol.
Mae'r ddarpariaeth yn CA2 yn cynnwys cynllunio manwl mewn cylch o 4 mlynedd a gwelir datblygiad yn yr agweddau gyflwynir trwy gyfrwng themau amrywiol.
Darperir cwricwlwm cytbwys ac eang trwy gynnig profiadau sydd yn cwrdd â gofynion y Maes Llafur Cytun. Cynllunir yn bwrpasol i ddiwallu gofynion y fframwaith. Medda'r ysgol gyfoeth o adnoddau priodol, perthnasol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Manteisir ar rannu adnoddau wrth gyflwyno rhai agwedau a cheir arteffactau penodol i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae plant ar draws yr ysgol yn cael mynediad at brofiadau eang ac amrywiol. Cyfoethogir profiadau'r plant trwy gyfuniad da o waith ar ac oddiar y safle trwy ymweliadau amrywiol i gefnogi ac atgyfnerthu'r dysgu. Mae ymweld â sefydliadau crefyddol yn y pentref a thu hwnt yn hyrwyddo ac atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant o nodweddion yr adeiladau a beth sy'n digwydd ynddynt.

Dengys cofnodion o arsylwadau gwersi addysg grefyddol fod yr addysgu yn gyson dda a'r plant yn elwa o brofiadau eang ac amrywiol.
Amlygir cryfderau'r addysgu mewn –

- cynllunio effeithiol
- athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda
- amcanion clir yn cael eu pennu
- plant yn pennu MPLl
- technegau medrau meddwl amrywiol yn cael eu hyrwyddo
- dulliau tracio ac asesu effeithiol

**Materion i gael sylw**

- Datblygu ymhellach ymwybyddiaeth ac ymdriniaeth y plant o gwestiynau mawr y byd
- Sicrhau fod amser dyladwy yn cael ei neilltuo ar gyfer y maes.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Mae'r ysgol yn cyflawni ei dyletswydd i hybu datblygiad ysbrydol dysgwyr trwy gydymffurfio â gofynion canllawiau Addoli ar y cyd CYSAG.
Mae naws priodol yr addoli yn rhoi pwyslais ar werthoedd moesol, ysbrydol ac egwyddorol. Plethir agweddau AbaCh mewn sesiynau Amser Cylch sydd hefyd yn cyfateb â gofynion y Maes Llafur Cytun
Mae cyfnodau Addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol y plant trwy gynnig amser arbennig ar wahan i weithgareddau cyffredin yr ysgol. Yn ystod sesiynau Addoli ar y cyd caiff y plant gyfle i fyfyrio ar eu teimladau eu hunain.
Mae cyfnodau Addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad personnol y plant trwy roi sylw i ddeallusrwydd emosiynol, hybu myfyrio mewnol a hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill. Mae'n rhoi cyfle hefyd i feithrin y gallu i wneud dewisiadau moesol a datblygu deallusrwydd o dda a drwg.
Mae cyfnodau Addoli ar y cyd yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan a'r gymuned ehangach ac mae'n gwella ymwybyddiaeth y plant o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae'n hybu gwerthoedd ac yn cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned. Dethlir llwyddiannau unigolion, ysgol gyfan a thu hwnt yn ystod gwasanaethau, gwerthfawrogir cyfraniadau unigolion tuag at y llwyddiant hwnnw. Cynhelir gwasanaethau misol dan arweiniad Rheithor y plwyf sy'n ddolen gyswllt werthfawr â'r Eglwys ac yn rhoi ymdeimlad a naws o berthyn i'r plant. Mae'r ysgol yn cefnogi achosion da lleol a chenedlaethol yn gyson trwy gyflwyno rhoddion – rhydd hyn ymdeimlad o falchder a bodlonrwydd o allu cynorthwyo eraill mewn cymuned ehangach.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Plant i gael cyfle i fod yn gyfrifol am arwain y gwasanaeth a chymryd rhan mwy blaenllaw.
- Dirprwyo a rhannu cyfrifoldebau a sicrhau atebolrwydd holl sftaff mewn perthynas ag addoli ar y cyd

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Dwynwen Llwyd Powell*

Dydddiad: Mai 22ain 2015

This page is intentionally left blank

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Gareth Jones**

**Cyfeiriad: Adran Dysgu Gydol Oes, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: YSGOL Y Fali, Ynys Mon.**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Y CYFNOD SYLFAEN
Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau dod yn hyderus wrth drafod amrywiol faterion ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn dechrau galw i gof storïau a ffeithiau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau mewn parau, grwpiau bach a dosbarth cyfan gan ofyn cwestiynau synhwyrol.
Gall y rhan fwyaf siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio geirfa grefyddol syml gyda hyder cynyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2
Mae'r rhan fwyaf o blant 3 / 4 yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae ychydig iawn yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau. Erbyn bl 5 / 6 mae ychydig o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai arferion crefyddol a chredodau.Maent yn dechrau sylweddoli fod grefydd a cgredodau yn effeithio ar fywydau credinwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn bl 3 / 4 yn gallu disgrifio a trafod eu teimladau. Maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parchu safbwyntiau eraillMae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddant yn defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.

Erbyn bl 5 a 6, mae llawer o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau.Mae llawer ohonynt yn gallu trafod sut mae eu penderfyniadau yn effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau eraill.. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geiriau addas.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN** **Mwy o gyfle am drafodaethau. Datblygu cwestiynu ymhellach.**
**CYFNOD ALLWEDDOL 2.** Seilio mwy o'r gwaith ar y cwestiynu mawr
- 

| Rhagorol | | Da | | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
**Y CYFNOD SYLFAEN**
- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol

- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau fod gofynion y fframwaith yn cael ei ddiwallu.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Bydd y ficer lleol yn dod i weithio gyda'r plant unwaith pob mis.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Yn ystod y cyfnodau Addysg Grefyddol, pwysleisir ar y cwestiynau mawr. Mae sgiliau'r plant i drafod a chwestiynu yn datblygu'n dda.
- Bydd y plant yn cael gwrando ar storïau a thrafod agweddau ohonynt.
- Defnyddir technoleg gwybodaeth i gyflwyno agweddau o'r maes llafur ac mae hyn yn sbardun i waith trafod.
- Mae adnoddau a llyfrau addas ar gael yn yr ysgol ac mae'r rhain o safon uchel ac maent yn gyfredol. Defnyddir clipiau fideo i gyflwyno agweddau o'r gwaith.
- Mae cynlluniau ar gael yn yr ysgol ond mae angen ail edrych ar y rhain yn sgil ail drefnu dosbarthiadau'r ysgol.

**Materion i gael sylw**
**Y CYFNOD SYLFAEN** Ail edrych ar y cynlluniau
**CYFNOD ALLWEDDOL 2**. Ail edrych ar y cynlluniau yn sgil ail drefnu dosbarthiadau a phersonél.

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Mae cyfnod o addoli ar y cyd yn cael ei gynnal yn ddyddiol boed hynny fel ysgol gyfan, Cyfnod Allweddol neu ddosbarth Unigol. Bydd y gwasanaethau wedi eu selio ar Gristnogaeth. Mae hawl gan rieni i neilltuo eu plant o'r cyfnodau Addoli ond ar hyn o bryd, does neb yn dewis gwneud hyn.
Yn ystod y cyfnod o addoliad bydd y plant yn cael cyfle i weddïo, canu, myfyrio, trafod, gwrando ar storïau, actio ,darllen ayyb.
Bydd y ficer lleol yn arwain un gwasanaeth pob mis.
Defnyddir y cyfnodau yma i drafod cwestiynau mawr ac i gyflwyno gwaith y dosbarth i weddill yr ysgol. Byddant yn cael eu defnyddio fel arf ar gyfer datblygu cwestiynau moesol, agweddau o ddinasyddiaeth byd eang a datblygiad personol a chymdeithasol. Byddwn yn pwysleisio fod angen dathlu tebygrwydd a gwahaniaethau.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Trafod y sesiynau addoli ar y cyd gyda'r holl staff gan drefnu cyfnodau ar gyfer creu cynlluniau ar gyfer y sesiynau yma . Gosod themâu yn eu lle ar gyfer y cyfnodau gan sicrhau fod y cynlluniau yn efelychu gwaith / themâu y dosbarthiadau.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod (Pennaeth)

Dyddiad:

**Enw'r Ysgol:YSGOL GYMUNED RHOSYBOL**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Y CYFNOD SYLFAEN
Ar ddechrau'r CS mae gallu y disgyblion i siarad am eu profiadau eu hunain a thrafod y byd o'u cwmpas yn datblygu'n foddhaol ac erbyn diwedd y CS mae lleiafrif o'r disgyblion yn trafod cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunain.
Erbyn diwedd CS mae lleiafrif yn gallu trafod eu teimladau yn dda a gweithredu barnau eu hunain a chynnig sylwadau ar safbwyntiau pobl eraill.
Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y CS a bydd lleiafrif o blant yn dechrau dod i gydnaod fod ystyr ddyfnach i symbolau crefyddol.
CYFNOD ALLWEDDOL 2
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae tua hanner yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae ychydig o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall lleiafrif o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau hwy gan gynnig, gydag annogaeth, eu barn eu hunain.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Mae tua hanner o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol.
Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN**
- Parhau i ddatblygu geirfa a gallu'r disgyblion i gwestiynu gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi barn erbyn brig y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**
- Sicrhau fod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grŵp mwy galluog yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawes y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.

Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir sesiwn o  o leiaf awr ar gyfer Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 2. Addysgir y maes gan uwch gymhorthydd  CPA o flwyddyn 3 i 6. (sesiwn i flwyddyn 3 a 4, a sesiwn i flwyddyn 5 a 6 )
- Manteisir ar y cyfle o gael ymwelwyri ddod i'r ysgol i sgwrsio a rhannu ei profiadau am bererindodau a gwaith elusenol mewn gwledydd dramor.

**Materion i gael sylw**

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr.
- Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
- Parhau i annog y lant i ddatblygu sgiliau meddwl.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Parhau i osod MPLl a rhoddi cyfle i'r plant fyfyrio ar y dysgu.
- Defnyddio adnoddau o'r llyfrgell
- Sicrhau dilyniant yn y cynlluniau  a defnyddio mwy o gwestiynau mawr.

| Rhagorol | | Da | | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol 3 bore ac un yn y dosbarth un prynhawn yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth, cyfnod ac ysgol. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad.
Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd.
Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Unwaith yr wythnos cynnal gwasanaeth Agor y Llyfr.
- Gweddïo
- Canu
- Darllen

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau.

??? Gwasanaeth Diolchgarwch / Gwasanaeth Coffa Cymunedol

Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda gydag agweddau rhagorol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- **Efelychu yr arferion da ymhob gwasanaeth**
- **Sicrhau fod A ar y C dosbarth/adran(CS) yn cydymffurfio a rheoliadau a gofynion**
- **Datblygu ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur**
- **Sicrhau fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag A ar y C**
- **Sicrhau cyfleodd i bob plentyn ddarllen yn y gwasanaeth.**
- **Cydweithio gyda'r Cyngor Cymuned i geisio cael taflunydd i'r neuadd.**

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: M. Hughes (Pennaeth)

Dyddiad: 1/10/12

This page is intentionally left blank

## Hunan Arfarnu Addoliad ar y Cyd ysgol Gymuned Llanfechell 2014 - 2015



| Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (CYSAG) | Cryfderau | Camau Gwelliant |
|---|---|---|
| Mae addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol. | - Cynhelir cyfnod o addoliad ar y cyd yn ddyddiol. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn rhan o'r addoliad, er bod polisi'r ysgol yn nodi fod gan rhiant hawl i eithrio ei phlentyn/plant o'r gwasanaeth. Yn ystod 2013/14 cafodd 1 plentyn ei eithrio ar gais y rhiant. Yn ystod 2014/15 nid oes unrhyw blentyn wedi ei eithrio o'r addoliad.<br>- Mae'r neuadd yn cael ei baratoi'n benodol ar gyfer addoliad. Llwyddai'r ysgol i greu ethos fyfrgar drwy dywyllu'r neuadd, gosod cannwyll a chroes ar fwrdd sydd wedi ei orchuddio â llian gwyn, chwarae cerddoriaeth dawel tra fo'r plant yn cerdded i fewn i'r neuadd. O ganlyniad mae bron bob plentyn yn sylweddoli fod hwn yn amser penodol ar gyfer myfyrio a addoli.<br>- Defnyddir amrywiol adnoddau er mwyn dal sylw a sbarduno trafodaethau crefyddol / ysbrydol. Mae rhai gwasanaethau yn fwy crefyddol a Christnogol eu naws. Yn ystod y gwasanaethau hyn cyflwynir storeon Beiblaidd neu alegoriau. Ar adegau eraill rhoddir sylw i gyflwyno negesuon moesol. Ar ddiwedd pob cyflwyniad rhoddir cyfle i'r holl blant gyfrannu yn ystod trafodaethau, neu sesiwn rhannu profiadau. Rhoddir amser penodol mewn llawer o'r addoliadau i blant fyfyrio ar neges y bore. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon yn hyrwyddo ddatblygiad ysbrydol holl blant yr ysgol. | Sicrhau fod cyfnod o fyfrio yn digwydd bron ym mhob addoliad. |
| Mae addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad personol. | - Mae'r ymagweddau moesol yn elfen amlwg a chryf yn aml o fewn yr addoliad. Yn ystod y flwyddyn mae'r holl blant wedi cael cyfle i fyfrio a thrafod materion megis brawdgarwch, maddeuant, helpu a gofal am eraill, cariad, hunanoldeb, bwlio. Mae'r plant wedi myfyrio ynglyn â chwestiynau tebyg i – beth sy'n fy ngwneud yn ffrind da? Yn ystod ychydig iawn o addoliad rhoddir sylw i gredoau eraill. Mae'r pwyslais yn ystod yr addoliad ar y grefydd Gristnogol. Rhoddir sylw i gredoau eraill yn ystod gwersi Addysg Grefyddol. | Ail edrych ar gynllun AAYC er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng storeon moesol a Beiblaidd. |
| Mae addoli ar y cyd yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan | - Mae'r cyfnod o addoli ar y cyd yn werthfawr gan ei fod wedi cadarnhau yr ethos o gymdeithas agos sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn hyrwyddo'r ymdeimlad o fod pawb yn y sefydliad hwn yn perthyn i 'deulu'r' ysgol. Yn ystod arolwg Estyn Mehefin 2014 nodwyd fod yr ymdeimlad hon yn gref drwy'r ysgol. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn cael eu hannog i gyfrannu yn ystod yr addoliad – boed hynny drwy rannu syniadau neu cyflwyno gweddi o'r fron ar derfyn yr addoliad. Dangosir parch tuag at pob unigolyn sy'n cyfrannu. Yn ystod yr addoliad rhoddir cyfle i unigolion cael eu | |

| | | |
|---|---|---|
| | llongyfarch ar eu llwyddiannau – boed hynny yn gysylltiedig â'r ysgol neu yn weithgarwch buont yn rhan ohono tu allan i'r ysgol. Mae hyn hefyd wedi sicrhau fod llawer iawn o ddisgyblion yr ysgol yn datblygu ymdeimlad o hunan werth a pharch at eu hunain ac eraill. | |
| Mae addoli ar y cyd yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach. | - Daw rheithor y pentref i'r ysgol unwaith y mis i arwain addoliad.<br>- Gwahoddir Merched y Wawr a'r Clwb Pensiynwyr i gyd addoli gyda rhieni yn ystod ein Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Yn ystod y gwasanaeth hwn mae'r holl blant yn cynnig cyfranniad. Caiff bwyd ffres ei gyflwyno i elusen 'Lighthouse' tra bo cynnyrch megis tuniau, bwyd cwpwrdd, clytiau babi, nwyddau molchi ac ati eu rho ii banc Bwyd Ynys Môn. Drwy wneud hyn mae'r plant yn dysgu am yr anghenus sy'n byw'n lleol i ni.<br>- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig draddodiadol bob yn ail blwyddyn. Caiff ei gynnal unai mewn capel lleol neu yn yr ysgol. Gwneir casgliad at elusen yn ystod y gwasanaeth hwn. Unwaith eto mae hyn yn rhoi cyfle i ni addysgu'r plant am rai llai ffodus na ni. | |
| Mae addoli ar y cyd yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang | - Rhoddir ychydig o gyfleoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn ystod yr addoliad.<br>- Rhoddir wahoddiad i aelod gweithgar o elusen Omwabini i ddod i roi cyflwyniad i'r plant ar ei waith yn Kenya. Caiff y plant weld sut mae'r arian maent wedi godi yn cael ei wario er mwyn gwella bywyd plant yn Omwabini.<br>- Rhennir neges Ewyllus Da yr Urdd gyda'r holl ddisgyblion yn ystod gwasanaeth arbennig. Disgyblion blwyddyn 5 a 6 sydd fel rheol yn gyfrifol am gyflwyno'r gwasanaeth hwn. Mae'r neges o heddwch byd eang yn amlwg iawn yn ystod yr addoliad hwn. | Ailedrych ar gynlluniau AAYC yr ysgol er mwyn sicrhau bod rhagor o sylw'n cael ei roi i ddatblygu'r agwedd hwn. |

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2014 – Awst 2015

Pennaeth Dysgu
Mrs Delyth Molyneux

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2014-15
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o’r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Dylan Rees
Cadeirydd, 2014-15

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Môn ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Danfonwyd llythyr (11.06.2014) yn gofyn i **bob ysgol gynradd ac uwchradd** i gyflwyno adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Môn erbyn 22 Mai 2015. Derbyniwyd 8 adroddiad yn ystod 2014-15, sef 15% o ysgolion Môn.

Cyn 2013, roedd Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion.

Cyflwynwyd 8 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau gan ysgolion cynradd Carreglefn, Ffrwd Win, Henblas, Llangaffo, Llangoed, Parc y Bont, Santes Gwenfaen (Rhoscolyn), yn ystod y flwyddyn ac un adroddiad uwchradd gan Ysgol Gyfun Llangefni.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | 1 | 5* | | | 1 | 4* | | | 1 | 4* | | |
| **Uwchradd** | | 1 | | | | 1 | | | | 1 | | |
| **Cyfanswm** | | 6 | | | | 5 | | | | 5 | | |

- *Ni chyflwynwyd barn grynodol gan rai ysgolion.*

Roedd llawer o'r adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen (CS) yn ymwybodol o brif wyliau a dathliadau Cristnogol ac yn gallu eu trafod yn syml; (Carreglefn)
- bod hanner y disgyblion CS yn gallu galw i gof a chyfathrebu'n syml rai o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt yn dda, ac yn gallu awgrymu'n pam y mae'r agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobl; (Ysgol Ffrwd Win)
- bod disgyblion CS yn gwybod am bwysigrwydd y Beibl i Gristnogion a gallant ddwyn i gof straeon o'r Hen Destament a'r Testament Newydd; (Henblas)
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion CS yn deall ystyr symbolau crefyddol; (Llangaffo)
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion CS i ddeall prif negeseuon straeon crefyddol a bod ychydig o'r disgyblion yn gallu esbonio effaith y negeseuon ar unigolion; (Llangoed)
- bod bron bob un disgybl CS yn gallu cynnig barn, dwyn i gof eu profiadau personol ac yn dechrau dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ffydd pobl eraill a ffyrdd o addoli; (Santes Gwenfaen, Rhoscolyn)

- bod y rhan fwyaf o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yn adnabod prif nodweddion a gwrthrychau addoli, y defnydd a wneid ohonynt a phwysigrwydd mannau pererindod o fewn amryw o grefyddau'r byd; (Carreglefn)
- gallu llawer o ddisgyblion CA2 i ddisgrifio a dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir iddynt yn dda ac yn gallu rhoi enghreifftiau penodol o 'r ffyrdd y mae'r agweddau yma yn effeithio ar fywydau credinwyr. Maent yn dechrau nodi'r hyn sydd yn debyg ac yn wahanol mewn crefyddau yn dda; (Ffrwd Win)
- bod disgyblion CA2 yn datblygu yn dda o ran eu gallu i gwestiynu ac i fyfyrio ar faterion mwyfwy heriol ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol gall rhai plant drin a thrafod materion megis ystyr bywyd a'r cread; (Henblas)
- sgiliau da iawn disgyblion CA2 wrth iddynt gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn addysg grefyddol i'w cwestiynau personol am ystyr a phwrpas; (Llangaffo)
- hyder disgyblion CA2 wrth archwilio ffynonellau crefyddol; (Llangoed)
- bod y mwyafrif o ddisgyblion yn gallu mynegi barn i ddilysu, cyfiawnhau neu esbonio arferion crefyddol personol a dangos parch at arferion crefyddol eraill; (Santes Gwenfaen, Rhoscolyn)
- y cynnydd (+10.7%) yn y ganran o ddisgyblion CA3 a gyflawnodd nodweddion L7+ yn eu gwaith addysgu grefyddol mewn cymhariaeth a'r flwyddyn flaenorol; (Ysgol Gyfun Llangefni)
- y cynnydd (+12.7%) yn y ganran o fechgyn a lwyddodd i ennill graddau A*-C mewn Astudiaethau Crefyddol TGAU (Ysgol Gyfun Llangefni);

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddatblygu gallu plant i fod yn wrthrychol wrth ymdrin â materion crefyddol, (Henblas);
- wella gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o straeon a nodweddion addoli crefyddau'r byd, (Carreglefn);
- barhau i gau'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a merched o fewn y graddau A*/A ac A/B yn TGAU, (Ysgol Gyfun Llangefni).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- y defnydd da iawn a wneir o storïau, llyfrau ac offer TGCh gan athrawon y Cyfnod Sylfaen, (Ysgol Llangoed);
- y cyfleoedd cyfoethog a roddir i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen i archwilio ystod o faterion sy'n ymwneud â phobl a chredoau trwy gyfrwng stori, drama, ymarferion chwarae rôl, chwarae rhydd a defnydd o bypedau, (Ysgol Henblas);
- cwricwlwm Addysg Grefyddol yn eang a chyfoethog sy'n annog y disgyblion i gywain gwybodaeth a dealltwriaeth drwy weithgareddau dysgu eang ac amrywiol, (Ysgol Llangaffo);
- y cynllunio sy'n sicrhau bod disgyblion yn cynnal ymholiadau ar faterion crefyddol ac i ddod i farn ar sail y wybodaeth a gesglir. Yn yr achosion gorau mae'r addysgu yn fywiog gyda'r dysgwyr yn weithredol, yn cyd-drafod, yn ystyried ac yn mynegi barn ar sail gwybodaeth,

dealltwriaeth a phrofiad. Yn yr achosion hyn mae’r tasgau a osodir yn herio pob plentyn, (Ysgol Henblas CA2);

- ansawdd da'r addysgu (Ysgol Llangoed ac Ysgol Rhoscolyn);
- gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio’n ofalus er mwyn cynnig y cyfleoedd gorau posibl i ddatblygu ac adeiladu ar y sgiliau gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgu blaenorol, (Ysgol Gyfun Llangefni);
- gwersi graenus sy’n sicrhau bod y disgyblion yn llwyr ddeall testunau a gofynion y cwrs TGAU, (Ysgol Gyfun Llangefni);
- gwersi Safon Uwch manwl a chyfoes sy’n ennyn diddordeb y myfyrwyr ac yn annog astudiaeth annibynnol, (Ysgol Gyfun Llangefni).

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae’r ysgolion yn nodi’r angen i:

- adolygu rhaglenni astudio addysg grefyddol, (Ysgol Llangaffo ac Ysgol Parc y Bont);
- ddatblygu sgiliau cwestiynu effeithiol ymhlith athrawon a disgyblion (Ysgol Henblas, Ysgol Llangoed);
- sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion CA2 i esbonio a chyfiawnhau eu syniadau (Ysgol Llangoed) ac i ymdrin â materion crefyddol yn wrthrychol (Ysgol Henblas);
- ddatblygu portffolio o waith addysg grefyddol y disgyblion, (Ysgol Gwenfaen, Rhoscolyn, Ysgol Gyfun Llangefni);
- sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i drafod symbolau crefyddol, (Ysgol Ffrwd Win);
- darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion astudio crefydd o’u cwmpas trwy drefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i’r ysgol, (Ysgol Carreglefn);
- datblygu gweithgareddau sy’n datblygu cynorthwyo’r disgyblion i ymateb i gwestiynau penodol o’r arholiadau allanol, (Ysgol Gyfun Llangefni)
- wahaniaethu yn fwy effeithiol trwy ddatblygu a chreu adnoddau, neu ddarparu cymorth ychwanegol neu baratoi tasgau unigol ymestynnol, (Ysgol Gyfun Llangefni).

**Pa mor dda yw’r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â’r gofynion statudol.
Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- bod y cyfnod o gyd-addoliad yn gyfnod ysbrydol nodedig, (Ysgol Llangaffo, Ysgol Parc y Bont);
- y cynllunio gofalus sy’n sicrhau amrywiaeth a chydbwysedd, (Ysgol Llangoed);
- y defnydd effeithiol o symbyliad priodol ac addas, sy’n cynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, cyflwyniadau ‘PowerPoint’ a chlipiau fideo gogyfer ag ennyn diddordeb a chyfraniad y plant (Ysgol Llangoed);
- y cyfleoedd i archwilio materion moesol ac ysbrydol a manteisir ac agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a’r Cwricwlwm Cymreig, (Ysgol Henblas);
- cyfraniad arwyddocaol addoli ar y cyd at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, (Ysgol Gyfun Llangefni).

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- creu naws mwy addolgar ym mhob gwasanaeth, (Ysgol Henblas);

- datblygu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i baratoi a chyflwyno sesiynau addoli ar y cyd, (Ysgol Garreglefn, Ysgol Parc y Bont).

Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Môn, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion (11 Mehefin 2014) yn gofyn iddynt estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd. Derbyniwyd gwahoddiad gan chwe ysgol yn ystod y flwyddyn, ac mae pedwar aelod o GYSAG Môn wedi ymuno mewn sesiwn addoli ar y cyd yn ysgolion cynradd Kingsland, Parc y Bont a'r Parch Thomas Ellis, Y Fali, Y Tywyn ac Ysgol Uwchradd Bodedern ac wedi canfod bod ansawdd y ddarpariaeth yn dda.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc;
- Sicrhau bod ysgolion yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru';
- Sicrhau bod ysgolion yn cyflwyno eu hadroddiadau hunan arfarnu i sylw CYSAG.

### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion ac yn defnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo:

- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

| **Blwyddyn** | **Ysgolion** | **Disgyblion** | | **%L5+** | | **%L6+** | | **%L7+** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C* | Ynys Môn | M+G+C | Ynys Môn | M+G+C | Ynys Môn | M+G+C | Ynys Môn | M+G+C |
| 2014 | 5(5)+11(14)+0(0) | 611 | 1,659 | 87.7 | 91.7 | 44.4 | 55.3 | 17.2 | 19.6 |
| 2013 | 5(5)+5(14)+1(7) | 675 | 1,242 | 86.4 | 88.7 | 68.5 | 52.3 | 13.8 | 18.2 |
| 2012° | 5(5)+13(14)+4(7) | 657 | 2,577 | 74.0 | 82.7 | 51.4 | 43.2 | 6.8 | 12.5 |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 378 | 1,773 | 76.7 | | 40.9 | | 10.1 | |

* Erbyn diwedd tymor yr Haf 2014 roedd pob ysgol ym Môn wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 11 allan o 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Nid oedd ysgolion Conwy wedi cyflwyno data perfformiad. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol.

° Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad.

- Cyflwynodd pob ysgol data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd yr ysgolion arbennig (Yr Hafan ac Ysgol y Bont) wedi cyflwyno data.
- Aseswyd 611 o ddisgyblion CA3 yn ystod tymor yr Haf 2014.
- Lefel 5+: Da. Cyflawnodd 87.7% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol sy'n gynnydd o 1.3% ers 2013. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 81.6% i 94.2%;
- Lefel 6+: Digonol. Cyflawnodd 44.4% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol sy'n 24.1% yn llai nag yn 2013. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 35% i 51.8%.
- Lefel 7+: Da. Cyflawnodd 17.2% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynnydd o 2.4% ers 2012. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 10.6% i 26.2%.
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 2 ysgol.
- Roedd disgyblion yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol mewn dwy ysgol.
- Mae cyflawniad disgyblion sy'n derbyn Prydiau Ysgol am Ddim (PYD) yn is na'r disgyblion sydd ddim yn derbyn prydiau ysgol am ddim (dim PYD) ymhob dangosydd, (L5+ 13.8%, L6+ 16.7%, L7+ 13.4%).

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2011.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2014** | 5 | 27 | 110 | 137 | 40.7 | 55.5 | 52.6 | 81.5 | 87.3 | 86.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 48 | 47 |
| **2013** | 5 | 32 | 108 | 140 | 28.1 | 46.3 | 42.1 | 81.3 | 82.4 | 82.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 46 | 46 |
| **2012** | 4 | 46 | 110 | 156 | 43.5 | 65.5 | 59.0 | 76.1 | 94.5 | 89.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 50 | 49 |
| **2011** | 5 | 46 | 100 | 146 | 21.7 | 58.0 | 46.6 | 67.4 | 92.0 | 84.2 | 100 | 100 | 100 | 41 | 49 | 47 |

Nid yw'r data yn caniatáu i GYSAG Môn i gymharu perfformiad y disgyblion sy'n sefyll addysg grefyddol gyda'u perfformiad mewn pynciau eraill. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i ddata sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn cwestiynau unigol ac mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**Canlyniadau da**

- 137 ymgeisydd o 5 ysgol ym Môn. Sgôr cyfartalog y pwnc yw 47 sy'n gynnydd o un pwynt ers llynedd.

- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 11 disgybl mewn un ysgol i 51 mewn ysgol arall.
- 52.6% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth). Mae'r ganran wedi gwella'n arwyddocaol ers 2013 (+10.5%).
- 86.1% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster lefel 2 (A*- C) sy'n gynnydd (+4%) o gyflawniadau 2013. Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 27 : G 110).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 48 mewn cymhariaeth a sgôr cyfartalog y bechgyn o 44, y bwlch yn +2 yn fwy na llynedd. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Mae canlyniadau L2+ eleni yn awgrymu bod y bwlch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cynyddu ychydig eleni (+4.7) ond yn parhau yn is na'r hyn welwyd yn 2012 a 2011.. Mae'r bwlch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 14.8 sy'n llai na'r bwlch yn 2013 (18.1%). Dyma'r bedwaredd flwyddyn o'r bron i'r bwlch leihau ers 2011 pan oedd y bwlch yn 36.3%.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**
Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymhwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2014** | 1 | 6 | 28 | 34 | 50.0 | 71.4 | 67.6 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 23 | 26 | 25 |
| **2013** | 2 | 11 | 32 | 43 | | | | 72.7 | 84.4 | 81.4 | 100 | 100 | 100 | 21 | 25 | 24 |
| **2012** | 3 | 4 | 3 | 7 | | | | 50.0 | 66.7 | 57.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 21 | 20 |
| **2011** | 2 | 32 | 37 | 69 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 65.6 | 86.5 | 76.8 | 100 | 100 | 100 | 20 | 24 | 22 |

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**
- Annog adrannau uwchradd i ymateb i unrhyw negeseuon a amlygir yn sgil dadansoddi data perfformiad mewnol ac allanol ysgolion;
- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn rhannu arferion da.

### 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Arolygwyd 7 ysgol gynradd, 1 ysgol arbennig ac 1 ysgol uwchradd yn ystod 2014-15.

| **Ysgol** | **Dyddiad** | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?* | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: addoli ar y cyd?* | **Profiadau dysgu (2.1)** *A oes cyfeiriad at: Addysg Grefyddol?* | **Gweithio mewn partneriaeth (3.3)** *A oes cyfeiriad at gymunedau crefyddol lleol?* |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Bont | Hydref | ✓ | ✓ | × | × |
| Bodedern | Hydref | ✓ | ✓ 1 | × 2 | × |
| Parc y Bont | Hydref | ✓ | × | ✓ | × |
| Parch T Ellis | Hydref | ✓ | × | ✓ | ✓ |
| Llangoed | Ionawr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Bodorgan | Chwefror | ✓ | × | × 2 | ✓ |
| Kingsland | Mawrth | ✓ | × | ✓ | ✓ |
| Morswyn | Ebrill | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Bodffordd | Mehefin | ✓ | ✓ 1 | ✓ 2 | × |

1. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'gwasanaethau' nid sesiynau addoli ar y cyd.
2. Mae'r adroddiad yn nodi bod yr ysgolion yn darparu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion statudol.

Mae'r adroddiadau yn nodi bod:

- bron bob un o'r ysgolion yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol yn ysgol yn dda;
- Ysgol Gymraeg Morswyn yn darparu sesiynau addoli ar y cyd sy'n gosod "naws Gristnogol a moesol" ac yn "creu ethos myfyrgar";
- bron bob un o'r ysgolion yn darparu cwricwlwm sy'n bodloni gofynion statudol addysg grefyddol;
- rhai ysgolion wedi sefydlu partneriaethau cadarn rhwng yr ysgol a chymunedau crefyddol lleol, (Llangoed, Bodorgan, Kingsland a Morswyn);

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mr. Gareth Jones, swyddog addysg Cyngor Ynys Môn yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Môn yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Cyngor Ynys Môn yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Môn ac i gynrychioli CYSAG Môn mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)

- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Môn wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad;
- Annog athrawon addysg grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYSAG Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:

